
# Heddwch

cylchgrawn CND Cymru

Hydref 1996
AM DDIM (neu gyfraniad)


# Cerdded o Gymru i Greenham, 1981




**YN Y RHIFYN HWN**


- **Cerdded o Gymru i Greenham 1981** . . . . . . . . . . . . . . . . . . **2**
- **Yr Etholiad Cyffredinol** – cyfle i ddadlau'r achos dros gael gwared o Trident . . . . . . . . . . . . . **5**
- **Mae arnom angen eich llofnod chi!** . . . . . . . . . . . . **6**
- **Mae ar y Siop Heddwch yng Nghaerdydd eich angen chi** ... **6**
- **Hadau gobaith** – diarfogi Hawks **7**
- **Arolwg newydd yn Greenham** **7**
- **Llygedyn o gyfle** – o wahardd profion i fyd di-niwclear . . . . . . **8**
- **Ewro-fom?** . . . . . . . . . . . . . . . . **9**
- **Ymbelydredd ym Môr Iwerddon** – perygl i bobl Cymru . . . . . . **10**
- **Hyder mewn dyfodol niwclear?** . . . . . . . . . . . . . . . **10**
- **Rhan hanfodol o beiriant rhyfel Prydain** . . . . . . . . . . . **11**
- **Dyddiadau Dyddiadur** . . . . . . **12**






## Menywod yn dilyn eu greddf a'u breuddwydion

Aeth pymtheg mlynedd heibio er y Daith Heddwch i Greenham – ysbrydoliaeth menywod o Gymru – a weodd yr edefyn cyntaf o'r gwe a fyddai'n eicon i fudiadau menywod a mudiadau heddwch diwedd yr 20fed ganrif. I lawer ohonom heddiw, wrth i ni ymdrechu i ymgyrchu o fewn sefyllfa fyd-eang fwy cymhleth a mwy peryglus, mae Taith Greenham a'r Gwersyll Heddwch a ddeilliodd o hynny yn symbolau pwysig a phwerus o bobl yn gwrthod derbyn arfau niwclear – unrhywle.

*Parhad ar dud. 2*

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

# Cerdded o Gymru i Greenham 1981




Ysgogwyd Ann Pettitt o Lanpumpsaint, Sir Gaerfyrddin, a oedd eisoes yn weithgar yn ei grwp gwrth-niwclear lleol ar fater Cymru Ddi-Niwclear, gan erthygl yn Peace News am orymdaith a arweiniwyd gan fenywod o Copenhagen i Baris. Ynghyd â Karmen Cutler, Lynne Whittemore a Liney Seward, penderfynwyd y byddai'r Daith yn cychwyn ddiwedd mis Awst, ac y byddent yn cerdded i Gomin Greenham – i alw sylw'r cyhoedd at wersyll milwrol yr UD yn Berkshire lle'r oedd taflegrau Cruise ag ergydion niwclear yn mynd i gael eu lleoli.

Yn sgl llythyron diofn o optimistaidd o orllewin Cymru at bob math o fudiadau ac unigolion ar hyd llwybr y daith ac ym mhob rhan o wledydd Prydain, roedd y mudiad cynnyrch-cartref "Taith Heddwch Menywod dros Fywyd ar y Ddaear 1981" wedi cychwyn.

Dywedwyd wrth y Wasg ym mis Awst: "Bydd menywod o bob rhan o wledydd Prydain a'u plant yn cerdded ar draws y ffin o Gymru i Loegr yn dwyn neges Heddwch ... arweinir y gwrthdystaid hwn gan grwp 'craidd' o fenywod a phlant yn bennaf a fydd yn mynd yr holl ffordd. Ond mae croeso i rywrai sydd yn poeni am y perygl marwol a wynebwn oherwydd twf y ras arfau niwclear i ymuno â ni unrhywle ar hyd y ffordd ... Un peth sy'n unigryw am y daith yw ei bod yn cael ei threfnu gan ymgyrchwyr unigol di-dâl yn CND sydd yn gwneud y gwaith i gyd yn eu horiau hamdden. Menywod â phlant ifanc yw'r rhan fwyaf ohonyn nhw ... Arweinir y daith gan fenywod i ddangos i bawb bod menywod yn weithgar ac yn amlwg yn y mudiad heddwch. Croeso i ddynion fel cefnogwyr, ond menywod yn bennaf fydd yn annerch cyfarfodydd a digwyddiadau ar hyd y ffordd ..."




Ymadawodd un ar bymtheg ar hugain o fenywod, pedwar dyn a thri o blant â Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar y 27ain Awst. Dangosai'r faner a gariwyd, a wnaed o gynfasen wedi ei lliwio'n binc, symbol CND yn egino mewn coeden a'r geiriau "Women for Life on Earth" ar ei thraws.

Roedd Eunice Stallard, mamgu o Gwm Tawe, yn un o'r rheini a ymadawodd â Chaerdydd y bore hwnnw heb lawer o syniad beth fyddai effaith gweithred y menywod ar fenywod, ar y mudiad gwrth-niwclear, ar y cyfryngau rhyngwladol, ac ar lywodraethau Prydain a'r UD. Ymateb wnaeth Eunice i hysbyseb am y Daith yn Labour Weekly. Sylweddolodd fod cyfrifoldeb personol arni i wneud rhywbeth i dawelu ofnau ei hwyr bach am fygythiad rhyfel niwclear.

"Roeddwn wedi ymgyrchu dros ddiarfogi niwclear yn y gorffennol, fel aelod o Bwyllgor y 100 Cymru, gan ymuno â gorymdeithiau Aldermaston yn y 50au a'r 60au, a sylweddolais bod mynd ar y daith fenywod hon yn rhywbeth roedd rhaid i mi ei wneud i ddiogelu'r dyfodol i'm hwyrion."

Roedd y tywydd yn fendigedig ac yng Nghaerdydd, cawsom araith i'n gosod ar y ffordd gan Ann Clwyd a gerddodd gyda ni cyn belled â Llanrhymni. Ymhlith ein grwp roedd meddygon, bydwraig, mamau ifainc, artist, beirdd, awduron a myfyrwyr a phedair menyw yn eu chwedegau a gerddodd yr holl ffordd. Yng ngwersyll yr UD yng Nghaerwent, ger Casnewydd, rhoesom ein cais i mewn am drafodaeth rhwng y llywodraeth neu un o weinidogion y Weinidogaeth Amddiffyn, ac un o'r menywod ynglyn â lleoli taflegaru Cruise yn Greenham a Molesworth heb gyfeirio at bobl gwledydd Prydain."


## Curo dwylo, cusanau a phaned o de

"Aeth y Daith drwy Gasgwent, Bryste, Caerfaddon, Devizes, Melksham, Marlborough, Hungerford, Newbury ac yna i Greenham. Bob lle arhoson ni, siaradodd menywod, a chawsom groeso bendigedig gan unigolion, grwpiau Llafur lleol, Crynwyr a Methodistiaid, grwpiau gwrth-niwclear ... ger Caerfaddon, wrth i ni flino â'n traed ar dân, safodd fan a neidiodd y Fallout Band allan a'n hebrwng gan chwarae ar hyd y ffordd i mewn i'r ddinas ... wedi i'r band ymddangos, fe gerddon ni ddwywaith cyn gyflymed! Yng Nghaerfaddon cawsom groeso gorfoleddus gyda churo dwylo, cusanau a phaned o de, a mynd yn rhan o Wyl Heddwch Caerfaddon ... wrth i ni gerdded tua'r dwyrain drwy bentrefi bychain a threfi, dosbarthwyd taflenni, ond fe'n hanwybyddwyd gan y cyfryngau."

## Yn ôl traed y Swffragetiaid

"Pan arhoson ni yn Hungerford, dyma benderfynu bod rhaid gwneud rhywbeth mwy syfrdanol i dynnu sylw'r wasg at y Daith. Awgrymwyd, a derbyniwyd, y dylem ddilyn yn ôl traed ein chwiorydd, a chadwyno ein hunain i glwydi gwersyll Greenham pan gyrhaeddem yno. Fe alwon ni i mewn i wersyll yr UD yn Welford i roi llythyr






tebyg iddynt i'r un a roddwyd i Gaerwent. Cawsom gynnig paned o de a bisgedi gan swyddogion y Weinyddiaeth Amddiffyn. Er bod yr ysbryd yn gadarn roedd y cnawd yn wan, roeddem yn dwym ac yn flinedig – ac fe dderbynion ni'r cynnig! Yn gynharach yn y dydd, cawswn fy newis yn un o'r pedair a gâi eu cadwyno yn Greenham,. Roedd cadwyni a chloion wedi cael eu prynu."

## Cadwyno i'r clwydi

Pan gyrhaeddon nhw Greenham ar Fedi'r 5ed, roedd criw mawr o 'Newbury Campaign Against Cruise' yn aros i'w cyfarch. Doedd protestiadau gwrth-niwclear ddim yn beth newydd i Newbury – cynhaliwyd rhai yno yn y 1960au pan adeiladwyd gwersyll yr UD. Cadwynodd y pedair menyw eu hunain wrth glwydi Greenham am 7.30a.m.

Penodwyd Karmen Cutler yn sylwedydd cyfreithiol. Dywedodd heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn wrthi "rydych chi'n gynnar, doedden ni ddim yn eich disgwyl tan 9.30!" Darllenodd Karmen ddatganiad i Bennaeth y gwersyll yn egluro pam yr oedd "Menywod dros Fywyd ar y Ddaear" wedi cerdded 120 milltir o Gaerdydd i'r ganolfan Cruise arfaethedig:

"Rydym yn cynrychioli miloedd o bob gyffredin sydd yn gwrthwynebu'r arfau hyn ac fe ddefnyddiwn ein holl adnoddau i atal lleoli'r taflegrau yn y fan hon."

O'r diwedd, cafwyd sylw'r cyfryngau. Arhosodd y menywod yn eu cadwyni, cyrhaeddodd llythyron a thelegramau, cynhaliwyd rali a chyneuwyd tân. Cynigiodd llythyr gan Gomander yr RAF i drafod 'trefniadau byw' ar y tir comin. Ni chafwyd trafodaeth gyda'r llywodraeth, ac arhosodd y menywod.


Yma, mae stori Taith 1981 yn dod i ben ac yn troi'n chwedl – breuddwyd menywod mewn cegin yn Llanpumsaint wedi cychwyn rhywbeth a oedd bellach yn amhosib ei atal.

Meddai Jill Liddington, " ... cafwyd cyfarfod mewn pabell a phleidlais: roedd digon o bobl yn fodlon ymrwymo i aros a sefydlu gwersyll heddwch. Yn ôl y chwedl, dyna'r foment y daethant allan o'r babell a chanfod enfys deublyg yn fwa dros y comin. Roedd yn gychwyn lwcus i'r gwersyll heddwch bychan herfeiddiol."

Mewn cymunedau ledled gwledydd Prydain mae menywod a gafodd eu swyno gan hud Greenham. Dechreuodd llawer o fenywod weithredu'n wleidyddol am y tro cyntaf, yn ddi-ofn, a newidiwyd bywydau. Ysbrydolodd delfrydau 1981 a'r cymysgedd o ffeministiaeth a gwleidyddiaeth heddwch weithredu gan fenywod a gwersylloedd heddwch ym mhedwar ban y byd. Er bod y taflegrau Cruise wedi mynd, mae'r bygythiad



niwclear i'n plant ledled y byd hyd yn oed yn fwy yn awr nag ydoedd 15 mlynedd yn ôl. Fel y dywedodd y menywod ym 1981, nid yw diarfogi ynddo'i hun yn herio yn sylfaenol y bobl, y sefydliadau na'r gwerthoedd a greodd y bomiau. Oni allwn herio'r rheini, bydd trais, ar ei holl agweddau, yn parhau. Mae'r gwaith dros heddwch a byd di-niwclear yn ein herio i gyda i bara ar y daith dros Fywyd ar y Ddaear.



Dim ond rhai o ddigwyddiadau a materion llosg yr haf a'r hydref

### ...ym i'r ddinas!

...n y Swyddfa ... Genedlaethol yn ... cynigiodd 40 o ... ymgyrchwyr CND Cymru a ... Cymdeithas y Cymod yn ... gwahoddiad, ... Anghenion a David ... AS ... eu hunain yn ... hedd. ... Hiroshima i alw ... ac fam ... Bydd ... neu ddefnydd ... niwclear yn gyfreithiol ... i greu cyfraith ... gan bledio'r ... cyfraith drwy ... a TNW, ... gan y ... i byw arfau ... niwclear.

... arfau ... niwclear ar Hiroshima wedi ... yn anghyfreithlon pe ... penderfyniad hwn wedi ... ym 1945.


### ...wnsio Dileu 2000

Yn y Swyddfa hefyd ... CND Cymru ... i lansio Dileu 2000 yng Nghymru. Defnyddiwyd 51 ... Hiroshima i ymuno â mwy na 600 o ... eraill yn rhedwar ... y byd sy'n galw am ... pendant a di- ...mod" ar arfau niwclear ... y byd.

Rhwydwaith deinamig o ... rhyngwladol ... Dileu 2000 a ddeilliodd ... Cynhadledd y Cytundeb ... Niwclear lle ... ymgyrchwyr gwrth-niwclear ... 11- ... hynod benodol. Mae'r ... hwn yn galw am ... Cytundeb ... y flwyddyn 2000 i ddileu arfau niwclear.

### Fforwm Di-Niwclear Cymru

Wrth i mi ysgrifennu'r geiriau hyn, dim ond dau Awdurdod Unedol yng Nghymru sydd heb ymuno â Fforwm Di-Niwclear Cymru, sef Cyngor Bwrdeistref Casnewydd a Sir Benfro. Ar ... Tachwedd roedd cynrychiolwyr Cyfeillion y Ddaear, Cynghrair Rhyngwladol y Menywod dros



Heddwch a Rhyddid, Cynghrair Wrth-Niwclear Cymru a Chynghrair Cymru yn erbyn Arfau Niwclear allan ar y strydoedd gyda CND Casnewydd ac CND Cymru yn gofyn i bobl arwyddo deiseb yn annog Cyngor Bwrdeistref Casnewydd i ymuno â'r 20 Awdurdod sydd eisoes wedi arwyddo.

Daeth y tân cemegol diweddar yn Avonmouth â Chasnewydd i stop, gan danlinellu posibiliadau damwain niwclear yng Ngorsaf Ynni Niwclear Hinkley Point, pan na fyddai poblogaeth De Cymru yn gweld, arogli, clywed neu deimlo'r ymbelydredd.

Cafodd Fforwm Di-Niwclear Cymru gefnogaeth gref gan Awdurdodau Lleol Cymru er ei sefydlu 11 mlynedd yn ôl. Mae'n darparu gwybodaeth gyfreithiol, niwclear ac ar faterion polisi amgylcheddol eraill sy'n effeithio ar Awdurdodau Unedol. Mae'n cynnig llwyfan unedig o'r lle y gall aelodau o gynghorau siarad ar ran eu cymunedau ar ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Os ydych yn byw yn Sir Benfro ac am fwy o wybodaeth er mwyn helpu i ddarbwyllo eich cyngor i ymuno â Fforwm Di-Niwclear Cymru, ffoniwch Jill Stallard ar (01558) 750 260, os gwelwch yn dda.

### Ffasgiau niwclear yn yr awyr uwch eich pen

Fel yr adroddwyd mewn rhifynnau blaenorol o Heddwch, mae cynigion ar y gweill i ostwng safonau diogelwch ar gyfer cludo deunydd ymbelydrol yn yr awyr. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig y dylid derbyn cynhwysydd newydd, rhatach ar gyfer cario tanwyddau plwtoniwm-wraniwm ocsid cymysg (MOX). Maent yn bwriadu gwneud hyn ar y sail nas profwyd bod tanwydd MOX yn "ddeunydd gwasgariad cyfyng" ac na fyddai plwtoniwm gwenwynig, gan hynny, yn lledaenu ar ôl damwain awyren.

Ar yr un pryd, dangoswyd bod ffasgiau cludiant awyr




"math C" safon uwch a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol (AYAR) yn annigonol! Mae'r profion ar gyfer pecynnau "math C" hyd yn oed yn llai llym na rhai ar gyfer cofnodwyr hedfan "blwch du". Mae UDA yn gwrthod caniatáu hedfan plwtoniwm ar draws ei gofod awyr mewn ffasgiau "math C".

Mae Prydain ar hyn o bryd yn hedfan tanwydd MOX fres i'r Swistir ac mae'n disgwyl hedfan tanwyddau o'r fath i'r Almaen os cymeradwyir safonau gwan presennol yr AYAR. Byddai damwain gydag awyren oedd yn cario deunydd niwclear yn anrheithio ardal anferth.

### Gwersyll Heddwch Faslane – ymlaen at bethau mwy!

Yn sgil Gwrthdystiad Trechu Trident hynod lwyddiannus CND ym mis Mehefin, y ddwy fenyw a lwyddodd i fynd ar fwrdd y llong danfor Trident, a'r holl negeseuon o gefnogaeth, mae Gwersyll Heddwch Faslane yn mynd i barhau ar agor. Bydd ei lwyddiant yn dibynnu ar ein cefnogaeth ni i'r criw bach sydd ar fin wynebu gaeaf Albanaidd arall ar lannau'r loch.

[illegible] I ymweld neu ddanfon cyfraniad, cysyllter â Kate Witham (01786) 812 663.

### Mordechai Vanunu – yr unfed flwyddyn ar ddeg

Wrth i'r sefyllfa yn y Dwyrain Canol ddal i waethygu, mae Vanunu'n cychwyn ar ei unfed flwyddyn ar ddeg mewn carchar unig am geisio dweud y gwir am waith gwahanu plwtoniwm Israel yn Dimona, i'r de o Gaersalem. Aeth cynnig ger bron Sesiwn Lawn y Senedd Ewropeaidd yn gresynu a thrywydd syniad ynglŷn â thriniaeth Vanunu, yn galw ar awdurdodau Israel i ddangos trugaredd, ac yn gwahodd cynrychiolwyr o Israel i Bwyllgor Materion Tramor y

# Yr Etholiad Cyffredinol – cyfle i ddadlau'r achos dros gael gwared o Trident




Gwnewch Trident yn air budr gyda phob ymgeisydd yn yr Etholiad Cyffredinol sydd wrth law. Mae'r "Pecyn Pwyso" a gynhyrchwyd gan CND Prydeinig yn llawn gwybodaeth am Trident ac yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i chi fedru pwyso ar eich ymgeisyddion lleol.

Mae grwp pwyso etholiadol CND Cymru yn edrych am aelodau unigol i bwyso ar yr ymgeisyddion yn eu hetholaeth seneddol.

Cytuno neu beidio, bydd ymgeisiyddion yn fwy gwybodus am faterion niwclear ac yn gyfarwydd â dadleuodd CND dros ddiarfogi niwclear byd-eang. Y gobaith yw yr ânt yn ôl i'w pleidiau gwleidyddol, eu cynadleddau a'u gwneuthurwyr polisi yn fodlon edrych o'r newydd ar lle maen nhw'n sefyll ar Trident a diarfogi niwclear.

**HEDDWEITHREDU**

*Os gellwch helpu i bwyso ar eich ymgeisyddion seneddol lleol, cysylltwch â Sarah Isaacs (01591) 620 561. Os na ellwch wneud hynny ond am Becyn Pwyso Etholiad Cyffredinol p'run bynnag, cysylltwch â Jill Stallard (gweler Cysylltiadau).*

Senedd Ewropeaidd ac egluro eu safbwynt.

Ar yr un pryd, mae gwyddonydd a fu'n gweithio yn Dimona wedi mynegi pryder y gall gwastraff niwclear ar y safle fod yn llygru un o'r ffynonellau dwr croyw mwyaf nas defnyddiwyd hyd yn hyn o dan anialwch y Negev.

Cynhaliodd rhwydwaith sydd yn gweithio i ryddhau Vanunu gynhadledd ryngwladol yn ddiweddar yn Tel Aviv. Cafodd Joseph Rotblat gwrdd ag Arlywydd Israel, yr Arlywydd Wezmann, i ddadlau'r achos dros ryddhau Vanunu, ond nid oedd yr ymateb yn un calonogol.

Yn ei araith yn derbyn Gwobr Nobel, dywedodd yr Athro Rotblatt, "Dylai datgelu fod yn rhan o ethos y gwyddonydd. Gall hynny ddod â chosb, efallai bydd rhaid talu pris am ddaliadau. Gall y pris hwnnw fod yn un drud iawn, fel y gwelwyd gyda chosb anghymesur o hallt Mordechai Vanunu. Credaf iddo ddioddef digon."

**HEDDWEITHREDU**

*Ysgrifennwch at eich AS a'ch ASE, da chi, i fynegi eich pryder am driniaeth ofnadwy Vanunu. Mae mwy o wybodaeth ar gael gan yr Ymgyrch i Ryddhau Vanunu a dros Ddwyrain Canol Di-Niwclear, 89 Borough High Street, Llundain SE1 1NL (0171) 378 9324.*

## Trenau Bach Niwclear Cymru

Mae CND Cymru ac CND Cumbria wedi bod yn tanlinellu peryglon caniatu i "Direct Rail Services" (DRS), is-gwmni yn perthyn yn gyfangwbl i British Nuclear Fuels Ltd (BNFL), gludo tanwydd niwclear ar rwydwaith rheilffyrdd gwledydd Prydain. Gallai'r ymgais i wneud yr elw mwyaf posibl arwain at lacio rheolau diogelwch. Cludir tanwydd niwclear o'r Wylfa, Ynys Môn ar draws gogledd Cymru i Gaer ac yna i Sellafield yn Cumbria.

Mae fflasgiau tanwydd niwclear yn gollwng ymbelydredd lefel-isel ac maent yn berygl i unrhywun sy'n gweithio ar y rheilffordd neu'n byw yn ei chyffiniau. Gallai damwain ddifrifol achosi gollwng ymbelydredd lefel-uchel. Mae'r posibiliadau yn ddychrynllyd.

Ar yr un pryd, yng Nghynhadledd Flynyddol ddiweddar Pwyllgor Llywio'r Awdurdodau Di-Niwclear, bu cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn trafod beth allent ei wneud i amddiffyn cymunedau lleol rhag y cwtogi ar gostau sydd yn bygwth safonau diogelwch niwclear. Mae Bob Crow, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol yr Undeb Rheilffyrdd, Morol a Chludiant, wedi rhybuddio am ddiogelwch hefyd, yn seiliedig ar y profiad o breifateiddio'r Rheilffyrdd Prydeinig.

## Wynebu'r gwirionedd am Dounreay

Roedd David Morris ASE, Cadeirydd CND Cymru, yn siomedig ac yn ddig pan syrthiodd ei gynnig brys yn galw am Ymchwiliad i record ddiogelwch Sefydliad Ymchwil Niwclear Dounreay yn yr Alban ar bleidlais gyfartal yn y Senedd Ewropeaidd yn Strasbourg.

Datgelwyd rhestr o "ddigwyddiadau radiolegol" rhwng 1974 a 1991, gyda deg ohonynt yn ddigon difrifol i fod wedi lladd pobl neu beri niwed corfforol difrifol, gan bapur-newydd y Scotsman ym mis Hydref.

Bydd dadgomisiynu adweithydd bridio cyflym arbrofol Dounreay hyd yn oed yn fwy anodd a pheryglus o ganlyniad i niwed a achoswyd mewn damwain or-boethi yn y 1960au, a chamddefnyddio siafft y gollyngwyd gwastraff ymbelydrol a chemegol ynddi.

Prin ei bod hi'n syndod i neb bod clwstwr lewcemia plant "anesboniadwy" yn y cylch.


Meddai David Morris, "Mae angen ymchwilio'n drylwyr ac yn agored i hyn oll o dan Gytundeb Ewratom. Dyna pam y gosodais fy Nghynnig Brys ger bron a chael y grwp Sosialaidd i'w gefnogi. Rwy'n teimlo'n ddig iawn ac yn siomedig i'r Senedd ymrannu, pan aeth hi i'r bleidlais, gyda 161 o blaid fy nghynnig a'r un nifer yn ei wrthwynebu. Golygai hynny y collwyd y cynnig. Os nad oes gan y diwydiant niwclear ddim byd i'w guddio, pam mae'n gwrthwynebu ymchwiliad?

Rwyf yn benderfynol o godi'r mater eto yn y Senedd Ewropeaidd. Mae'n fater rhy bwysig i ollwng gafael ynddo am ein bod yn fyr o un bleidlais ar ddydd neilltuol."

## Arfau Niwclear yr UD – wedi mynd neu'n dal ynghudd?

Ymddengys bod rhywfaint o amheuaeth erbyn hyn am yr adroddiadau y symudwyd arfau niwclear yr UD o Lakenheath yn dawel fach. Er nad oes unrhyw arfau niwclear ar ôl yn y Maes Storio Arbennig yn Lakenheath, Suffolk, nid oes digon o awyrennau cludo arfau niwclear C-141 wedi hedfan o'r gwersyll yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i fod wedi gallu mynd â'r 90 arf yn ôl i'r Unol Daleithau.

Mae'n bosib bod yr arfau wedi eu storio dan ddaear mewn llochesau awyrennau atgyfnerthedig WS3 a adeiladwyd yn ddiweddar. Mae gan y rhain systemau diogelwch mwy soffistigedig â llai o bobl yn gofalu amdanynt. Ni fu unrhyw newid yn safbwynt NATO. Mae cysyniad strategol NATO, a gytunwyd ym 1991, yn galw am "luoedd niwclear digonol yn Ewrop"




Cartoon by Tim [illegible]

i'w "cadw yno mewn digon o niferoedd i allu diogelu heddwch a sadrwydd".

Yn ôl gweithwyr ymgyrch CND Prydeinig, gostyngwyd nifer yr arfau o 90 i 48 – ond er gwaethaf be ddywed y wasg, Prydain yw hoff gludydd awyrennau'r UD o hyd.

Fel yr adroddodd Heddwch eleni, ymddengys yn debyg yn awr bod arfau niwclear yr UD yn cael eu hedfan i mewn ac allan o Brydain dros dde Cymru.

### Dinasyddion Gwyddelig yn ceisio gwaharddeb i gau THORP

Mae pedwar dinesydd Gwyddelig yn ceisio gwaharddeb i gau THORP (y gwaith ailbrosesu ocsidau thermol) yn Cumbria, gan ddadlau ei fod yn peryglu bywydau yn Iwerddon. Ym mis Hydref, enillodd y pedwar yr hawl i ddwyn achos yn erbyn BNFL yn Iwerddon. Dywedant bod BNFL yn tramgwyddo Cytundeb Ewratom sydd yn mynnu y dylid gwneud asesiad effaith amgylcheddol cyn cael gwared o wastraff niwclear, ac o dan gyfraith Ewropeaidd, bod BNFL yn atebol i bobl Iwerddon a llysoedd Iwerddon.


Mae'r pedwar, athro, cyfarwyddydd cwmni, artist a thyfwr llysiau organig, yn byw yn Dundalk sydd ond 112 milltir o Sellafield, yn agosoach na'r rhan fwyaf o bobl ym Mhrydain. Maent yn poeni am yr hyn a ollyngir o THORP a'r cynnydd mewn cludo defnyddiau ymbelydrol ar Fôr Iwerddon.

Bydd yr achos, a ddaw ger bron llys y flwyddyn nesaf, yn dibynnu ar dystiolaeth gan wyddonwyr niwclear rhyngwladol ac ymchwil feddygol yn seiliedig ar 43,000 o bobl sy'n byw yn Dundalk. Yn yr ardal hon mae lefel anarferol o uchel o Syndrom Down (29 o 120 o fabanod) ymhlith plant a aned i famau a oedd yn yr ysgol uwchradd eu hunain adeg tân 1957 yn Windscale.

Mae meddyg teulu yn Dundalk wedi darganfod afiechydon eraill annisgwyl yn y cylch. Meddai hi, "Mae rhywbeth yn achosi'r problemau hyn, ac fe'i caech hi'n anodd darbwyllo pobl yn y cylch nad Sellafield sy'n gyfrifol." Mae'r pedwar wedi rhoi eu cartrefi a'u swyddi yn y fantol er mwyn herio BNFL. Dywed y cwmni ei fod yn "hyderus" am nad yw'n peryglu pobl yn Iwerddon na neb arall.

### Enwebu Ymgyrchydd CND Cymru fel Menyw Ewropeaidd y Flwyddyn

Mae Jill Stallard, Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru yn un o 12 o fenywod o bob rhan o wledydd Prydain a enwebwyd fel "Menyw Ewropeaidd y DU 1997". Mae enwebiad ar gyfer y wobr hon yn anrhydedd ynddo'i hun, ac mae enwebiad Jill yn fesur o'r parch sydd bellach i'r rheini sy'n gweithio dros heddwch.



## I forio, i forio ...

**Llais cyntaf:** Newidiwch eich cwrs 15 gradd i'r gogledd, os gwelwch yn dda, i osgoi gwrthdrawiad â ni.
**Ail lais:** Awgrymaf y dylech *chi* newid eich cwrs chi 15 gradd i'r de i osgoi gwrthdrawiad â ni.
**Llais cyntaf:** Capten un o longau Llynges yr UD sy'n siarad. Dywedaf eto: newidiwch eich cwrs.
**Ail lais:** Na. Dwi'n dweud eto: newidiwch *chi* eich cwrs *chi*.
**Llais Cyntaf:** Y LLONG GLUDO AWYRENNAU ENTERPRISE SYDD YMA, UN O LONGAU RHYFEL MAWR LLYNGES YR UD. NEWIDIWCH EICH CWRS NAWR!
**Ail lais:** Goleudy sydd yma. Drosodd i chi.

*Diolch i'r Auchencairn News*

## Mae ar y Siop Heddwch yng Nghaerdydd eich angen chi ...

I wirfoddoli'n rheolaidd i weithio yn y siop – hyd yn oed am gyfnodau byr (ffoniwch Joan Judson (01222) 762836) a/neu ar stondin fisol carafan y Siop Heddwch (cysylltwch â Cynthia Thomas (01222) 513317.

- I gefnogi achlysuro codi arian a chymdeithasol – Ar 7fed Rhagfyr bydd Cyngerdd Nadolig yn yr Eglwys Norwyaidd, Caerdydd (cysylltwch â'r Siop Heddwch (01222) 489260.
- I wneud hyd yn oed gyfraniad bychan misol, cysylltwch â'r Trysorydd (01222) 703017.

Gall y rheini sy'n byw ymhellach i ffwrdd dderbyn llythyr newyddion bychan drwy ddanfon 4 stamp at Mike Ford, Ysgrifennydd, Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.

# Mae arnom angen eich llofnod chi!

A fyddech chi cystal ag ystyried arwyddo'r ddau ddatganiad a gynhwysir yn y rhifyn hwn o Heddwch

### Addewid y Dinesydd – Ymgyrch Fyd-eang i Ddileu Arfau Niwclear

Ataliwyd y profion niwclear dianghenraid ac amgylcheddol ddinistriol yn Ne'r Môr Tawel gan bwer pobl. Ymunodd dinasyddion Cymru â gweddill y byd i ddweud "NA". Yn awr, rydym yn gofyn i'r dinasyddion hynny i arwyddo addewid newydd a fydd yn atgyfnerthu'r ymgyrch "Dilead 2000" rhyngwladol sy'n galw ar i lywodraethau gychwyn negydu ar unwaith am gytundeb rhyngwladol ar ddiarfogi niwclear cynhwysfawr. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich addewid.

### Prosiect Llys y Byd – datganiad o bryder cyhoeddus


Mae hyn yn dilyn yn sgîl penderfyniad y Llys Barn Rhyngwladol (Llys y Byd) ym mis Gorffennaf. Bwriedir dwyn pwysau ar y llywodraeth i ufuddhau i'r gyfraith, ac adolygu sefyllfa gyfreithiol ei system arfau niwclear llongau tanfor, Trident. Danfonwch eich datganiadau wedi eu harwyddo at Brosiect Llys y Byd. Mwy o ddatganiadau ar gael gan Jill Stallard, CND Cymru – dynodwch ai yn Gymraeg neu Saesneg.

Ym mis Hydref, croesawyd gweithwyr prosiect Llys y Byd ynghyd â llawer o'r bron 4 miliwn "Datganiad Cydwybod Cyhoeddus" a ddefnyddiwyd fel tystiolaeth yn Llyd y Byd yn Den Haag gan CND Cymru yn y Deml Heddwch. Arddangosir y datganiadau hyn yn barhaol mewn arddangosfa gyhoeddus a agorir cyn hir yn Amgueddfa Heddwch Bradford. Yr un dydd, lawnsiodd yr Is-Gadeirydd Ray Davies a Chôr Cochion Caerdydd y Datganiad Pryder Cyhoeddus wrth Gerflun Aneurin Bevan yng Nghaerdydd.




Ffoto: Wendy Lewis

# Arolwg newydd yn Greenham




Mae arolwg newydd ar y gweill i ddarganfod a yw Comin Greenham yn dal wedi ei lygru gan y ddamwain niwclear y tybir iddi ddigwydd ym 1957, a disgwylir adroddiad yng ngwanwyn 1997.

Mae'r llywodraeth wedi gorchymyn ail agor ei ymchwiliad COMARE i glystyrau cancr lleol hefyd.

Camarweiniwyd ymchwiliad cynharach y llywodraeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a gadwodd wybodaeth am radioniwcleidiau yng nghylch Comin Greenham yn gyfrinach. Fodd bynnag, cafodd rhaglen ddogfen World in Action ddiweddar nifer uchel iawn o achosion o lewcemia ymhlith plant yn byw ger llaw'r gwersyll.

Mae CND wedi gorfodi'r llywodraeth i gyfaddef y bu nifer o ddamweiniau yng ngwledydd Prydain gydag arfau niwclear.

## Y Gost Ddynol

Mae nifer anarferol o uchel o blant ysgol gynradd leol ger y "smotyn poeth" i'r dwyrain i wersyll Comin Greenham wedi marw o dyfiannau ar yr ymennydd.

O grwp o 12 o fenywod o Leeds a fu'n byw yng Ngwersyll Heddwch Comin Greenham yn yr 80au, mae 10 wedi datblygu cancr er hynny. Mae nifer o filwyr catrawd yr Argyll and Sutherland a fu'n gwarchod ffens y safle yn ystod yr un cyfnod wedi mynd yn sal â chancr. Mae'r llain glanio llygredig yn cael ei falurio yn awr i'w ddefnyddio fel rhan o ffordd osgoi Newbury.

Dengys astudiaeth gan y llwyodraeth hefyd y siot-flastiwyd llawr Hangar 302 yng Nghomin Greenham ym 1988 a'i orchuddio a dwy got o baent ystor epocsi-resin – trefn safonol y Pentagon ar gyfer "glanhau" ar ôl i ddeunydd ymbelydrol gael ei ollwng. Yn y 1980au defnyddid Hangar 802 i storio Taflegrau Cruise ar eu ffordd rhwng y lleiniau glanio a'r byncars. Ym mis Gorffennaf 1988 ail-adeiladwyd yr hangar er bod Cytundeb yr INF newydd gael ei arwyddo.




Mae arolygon o Gomin Greenham ym 1982 a 1983 yn dal dan glo, ac mae banc data'r llywodraeth sy'n rhestru pob damwain niwclear yn y DU yn dal yn gwbl gyfrinachol.

## Calendr Poster Picasso 1997

Hyrwyddwch heddwch â chopi o'r Calendr Poster 1997 hardd hwn. Cynhyrchir y calendr A2 (42 x 59cm) gan y Cyngor Heddwch. Mae CND Cymru yn falch o fod yn gysylltiedig â'r Cyngor Heddwch y mae ei aelod-grwpiau yn cynnwys rheini sy'n gweithio ym mhob maes o'r mudiad heddwch – datrys gwrthdaro, datblygu, diarfogi, atal rhyfel, yr amgylchedd, cyfiawnder, cydraddoldeb, cymorth dyngarol, diogelwch a hawliau dynol.

- *Mae'r posteri ar gael am £3.50 yr un yn cynnwys cludiant (£3.00 yr un am archebion o 10 a mwy). Sieciau'n daladwy i "The National Peace Council". Oddi wrth: National Peace Council, 88 Islington High Street, Llundain N1 8EG (0171) 354 5200.*

# Hadau gobaith – diarfogi Hawks

Ble'r oeddech chi pan glywsoch y cafwyd menywod Ploughshares yn ddieuog gan Lys y Goron Lerpwl? Fe gododd galon llawer ohonom yn y mudiad heddwch i'r entrychion a gwneud i ni wenu hyd yn oed yn ein cwsg.


Mae'r fath fuddugoliaethau'n bethau prin a chofiadwy. Ond nawr, mae'r parti drosodd. Mae'r awyrennau Hawk yn dal i gael eu hallforio; mae British Aerospace a'r llywodraeth Brydeinig yn sicrhau bod y busnes gwaedlyd yn mynd yn ei flaen fel arfer. Mae rhywbeth cywilyddus o onest a chwydlyd a rhagweladwy yn eu hawydd i beidio â gadael i hil-laddiad neu hyd yn oed y gyfraith maent yn honni ei choleddu, sefyll yn ffordd masnach ac elw. Beth yw dedfryd ddieuog?


Mewn panic, cynhaliodd British Aerospace a'r holl ddiwydiant arfau gynadleddau brys yn sgŷl y ddedfryd, gan ofni fflyd o achosion llys tebyg, yn amlwg yn gwegian gyda chwalu eu hawl dybiedig anorchfygol i wneud fel y mynnant. Mae rhannau helaeth o'r cyfryngau a'r llywodraeth, yr heddlu, y gwasanaethau cyfrin a'r gyfraith wedi cynnig cydymdeimlad a chymorth ers hynny. Rhaid newid y system rheithgor, rhaid bod y ddedfryd yn un wrthnysig, rhaid danfon ysbÿwyr i mewn i'r mudiad, rhaid gosod gwaharddebau ar wrthdystwyr yn erbyn awyrennau Hawk ... Rhaid i chi edmygu eglurdeb a phwrpas moesol y bobl a'r sefydliadau hyn.

Sobor o beth. Beth yw dedfryd ddieuog? Rhywbeth hanesyddol? Statig? Neu a yw'n fwy annelwig na hynny ac yn fwy bregus – yn dibynnu ar sut y dehonglwn ni hi yn ein bywydau? Rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd o drosi'r llawenydd a'r dathlu ynghylch dedfryd llys Lerpwl yn rhywbeth parhaus sy'n cadw'r ffydd gyda'r holl bobl sy'n wynebu ein harfau a'n bygythiadau a'n gwleidyddiaeth. Trosi'r llawenydd a'r dathlu'n gynhaliaeth ar gyfer ein taith drwy fyd militaraidd, i roi nerth i'n coesau a'n peneliniau.

Mewn llawer ffordd mae dedfryd ddieuog fel carchariad: gwahoddiad i arbrofi gyda gweithrediadau di-drais cymunedol, i wrthsefyll. Gyda thipyn bach may o ddawnsio ar ben hynny, efallai.

Doedd y menywod ddim wedi bod yn rhydd am fwy nag ychydig fudundau cyn i British Aerospace gyflwyno gwaharddebau iddynt. Cafodd saith ymgyrchydd arall yn erbyn awyremnnau Hawk waharddebau tebyg, ymdrechion i atal a mygu a rhwystro a gwneud cydgynllwynwyr ohonom i gyd drwy geisio atal neb rhag llefaru a gweithredu yn wyneb troseddau British Aerospace. Mae eu gwaharddebau'n drwsgwl ac yn amddifad o bob moesoldeb. Yn eu lle, carwn i gynnig gwaharddeb lawer mwy parhaus, bywiol a chyfiawn – un a gyflwynwyd i ni filoedd o flynyddoedd yn ôl, sydd yn dal yr un mor gryf: 'A thorrant eu cleddyfau yn sychau, a'u gwaywffyn yn bladuriau: ac ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach. Ond eisteddant bob un dan ei winwydden a than ei ffigysbren, heb neb i'w dychrynu" (Michah 4:3-4).




***Stephen Hancock***

Mae Rhwydwaith Cefnogi Ploughshares yn estyn gwahoddiad i chi ymuno ac mae'n cynhyrchu llythyr newydd ardderchog: "The Daily Hammer", "Occasional Spanners" ac "Unprecedented Sledgehammers". Cysylltwch a nhw yn: Blwch X, 111 Magdalen Road, Rhydychen OX4 1RQ (01865) 744036.

# Llygedyn o gyfle – o wahardd profion i fyd di-niwclear

Mae testun y Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr (CGPC) wedi goresgyn y rhwystr cyntaf ar ei ffordd i ddod i rym yn llawn. Ar 10 Medi cytunodd y Cenhedloedd Unedig i agor y Cytundeb i wledydd ei arwyddo drwy 158 pleidlaios i 3 (Bhutan, India a Libya) gyda 5 yn atal eu pleidlais (Cwba, Libanus, Mauritius, Syria a Tanzania).

Ar y cyfrif diwethaf mae 111 o wledydd wedi arwyddo'r CGPC ers iddo fod yn agored i'w arwyddo. Mae tri-deg-wyth o'r deugain a phedwar o wledydd a enwyd y mae'n rhaid iddynt arwyddo cyn y gall y cytundeb ddod i rym wedi arwyddo hefyd. Y chwech sydd heb wneud hyd yma yw Algeria, Bangladesh, Yr Aifft, India, Gogledd Korea a Pakistan.

## Nid arwyddo'r Cytundeb yw diwedd y mater

Mae rhai rhwystrau i'w goresgyn o hyd. Os arwydda gwlad y CGPC, cred arbenigwyr eu bod wedi ymrwymo iddo o dan y gyfraith ryngwladol arferol. Felly, os arwydda'r pum gwladwriaeth niwclear y CGPC, byddant wedi ymrwymo i barhau ô'r moratoriwm presennol ar brofion niwclear. Byddant hefyd, unwaith eto, yn cydnabod yn gyhoeddus bod y CGPC "yn gam ystyrlon mewn rhoi sylwedd i broses systematig er sicrhau diarfogi niwclear" a bod angen "ymdrechion systematig cynyddol a pharhaus i leihau nifer yr arfau niwclear sydd yn y byd, gyda'r nod derfynol o ddileu'r arfau hynny ..."

## Bydd rhaid i bob cenedl syd'n arwyddo'r CGPC ei gadarnhau hefyd

Ym Mhrydain, gallai hynny olygu dwyn Mesur ger bron y Senedd gan y llywodraeth. Yn yr UD, fodd bynnag, gall Cytundeb a arwyddir gan yr Arlywydd gael ei defnyddio fel pelen mewn gôm wleidyddol gan Gyngres a Senedd elyniaethus. O ganlyniad, dim ond yn ddiweddar y cymeradwywyd Start II a arwyddwyd gan yr Arlywyddion Bush a Yeltsin ym mis Ionawr 1993, gan yr UD, ac mae'n dal i gael ei ystyried gan Duma Rwsia.

## "Dod i Rym"

Wedi i Gytundeb ddod yn agored i'w arwyddo, rhwystr arall i'w oresgyn yw disgwyl i'r holl amodau "Dod i Rym" gael eu cyflawni. Fel y crybwyllwyd uchod, cymerwyd y cam digyffelyb gyda CGPC o restru 44 cenedl benodol y mae'n rhaid iddynt arwyddo'r cytundeb cyn y gall ddod i rym. Mae'r rhestr yn cynnwys India, Israel, Pakistan, Bangladesh a Fietnam. Gorfodwyd y rhestr i mewn i destun y CGPC gan Brydain, Rwsia a Tsieina.

Mae India wedi datgan ar goedd na wna byth arwyddo'r CGPC ac mae Pakistan wedi datgan na wna hithau arwyddo oni wna India. Felly ymddengys yn debyg iawn na ddaw'r CGPC i rym oni ddigwydd rhywbeth dramatig i newid barn India.

Dair blynedd wedi agor y CGPC i'w lofnodi, gellir galw Cynhadledd gan bawb sydd wedi arwyddo i "ystyried a phenderfynu drwy gonsensws pa fesurau yn gydnaws âchyfraith ryngwladol y gellir eu cymryd i gyflymu'r broses o gadarnhau" a helpu i brysuro dyfodiad y Cytundeb i rym. Gallai hynny olygu y gallai'r Gynhadledd sefydlu dau o brif bileri'r CGPC, sef y Gorsafoedd Arwylio Rhyngwladol a Mudiad y CGPC, y telid amdano drwy gonsensws. Gallai, fodd bynnag, fod heb yr awdurdod i arolygu safleoedd o dan amgylchiadau amheus.

Mae'r holl fesurau uchod yn rhan bwysig o GGPC. Byddai'r drefn wireddu helaeth yn help i greu ymddiriedaeth a diogelwch rhwng cenhedloedd. Byddai'n gwneud gwireddu ymwthgar yn rhan o'r norm rhyngwladol ochr yn ochr ô'r Confensiwn Arfau Cemegol ac unrhyw Gonfensiwn Arfau Biolegol atgyfnerthedig.

Byddai hynny'n gwneud y posibilrwydd o gytundeb yn dileu arfau niwclear ledled y byd gymaint âhynny'n fwy cyraeddadwy ac ymarferol.

## Llygedyn o gyfle

Mae'r rhagymadrodd i'r CGPC yn cynnwys cyfeiriadau penodol at ymrwymiad i ddileu arfau niwclear o'r byd. Rhaid dal i bwyso i orfodi'r gwladwriaethau niwclear-arfog i sefydlu Pwyllgor Ad-hoc ar Ddiarfogi yng y Gynhadledd Ddiarfogi (CD) yn Genefa fel y gallant ddechrau siarad o ddifri am gyflawni eu hymrwymiad i ddileu arfau niwclear ledled y byd.

## Mae'n bryd dewis

Fu 'na erioed well adeg i'r byd ddechrau symud ar hyd y ffordd tuag at ddileu arfau niwclear. Gwelwyd cefnogaeth gynyddol i'r syniad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan uwch swyddogion milwrol, dadansoddwyr y maes amddiffyn, gwleidyddion a llywodraethau ym mhedwar ban y byd.

Ar ddiwedd 1995, cyhoeddodd Canolfan Stimson yn Washington adroddiad wedi ei arwyddo gan, ymhlith eraill, bedwar o uwch swyddogion milwrol yr UD yn cynnwys y Cadfridog Andrew Goodpaster, cyn-Bencadlywydd y Cynghreiriaid, Ewrop. Argymhellwyd cynllun pedwar-cam a fyddai'n arwain yn y man at ddileu arfau niwclear ledled y byd.

## Comisiwn Canberra

Cyhoeddodd Comisiwn Canberra ar Ddileu Arfau Niwclear, a sefydlwyd gan lywodraeth Awstralia, ei adroddiad yn ddiweddar. Roedd y Comisiwn wedi "ei ddarbwyllo bod yn rhaid ymdrechu'n benderfynol ar unwaith i waredu'r byd o arfau niwclear a'r bygythiad a gynrychiolant iddo".

Roedd aelodaeth y Comisiwn yn un o'r grwpiau o wleidyddion, gwyddonwyr ac uwch ffigurau milwrol mwyaf ei fri a gynulliwyd erioed i drafod un mater penodol. Aethant ymlaen i ddweud:

"Mae diwedd y Rhyfel Oer wedi creu hinsawdd newydd ar gyfer gweithredu rhyngwladol i ddileu arfau niwclear. Rhaid manteisio arno ar fyrder neu fe'i collir. Ni bu gwell cyfle er dechrau'r oes niwclear. Arfogaethau parhaol a thwf yn nifer y gwladwriaethau niwclear fydd tynged y byd os anwybyddir y cyfle hwn."

Roedd aelodau'r Comisiwn yn cynnwys y Cadlywydd Yr Arglwydd Carver, Pennaeth y Staff Amddiffyn 1973-76, Robert McNamara (Ysgrifennydd Amddiffyn yr UD o dan Kennedy a Johnson) a Joseph Rotblat, enillydd Gwobr Heddwch Nobel 1995.

## Y Llys Barn Rhyngwladol

Dyfarnodd Y Llys Barn Rhyngwladol ym mis Gorffennaf eleni bod arfau niwclear yn anghyfreithlon yn y mwyafrif o sefyllfaoedd. Cytunodd y Llys yn unfrydol hefyd bod "dyletswydd yn bod i negydu yn ddidwyll a dwyn i ben drafodaethau yn arwain at ddiarfogi niwclear yn ei holl agweddau o dan reolaeth ryngwladol gaeth ac effeithiol".

Ar hyn o bryd, mae'r llywodraeth Brydeinig yn dal ag ymrwymiad i arfau niwclear fel rhan o'n hamddiffyn. Ar 14 Mai, dywedodd David Davis AS,

*Parhad o'r dudalen flaenorol*

Gweinidog Gwladol yn y Swyddfa Dramor wrth y GD yn Genefa:

"... mae'r ansicrwydd parhaus sydd yn nodweddu ein diogelwch yn golygu na allwn dderbyn ymrwymiad i ddyddiad terfynol er dileu arfau niwclear, ac ni chredwn ychwaith y bydd o ddiben i'r Gynhadledd ar Ddiarfofgi fynd i'r afael ô'r materion hyn."

## Cyfryngau diarfogi

Ni all y statws quo niwclear barhau. Mae agor y CGPC i'w arwyddo yn gam yn y cyfeiriad iawn. Gyda chymorth dyfarniad Llys y Byd, Comisiwn Canberra a Chanolfan Stimson sydd oll yn dangos y ffordd i sicrhau dyfodol heb arfau niwclear, ochr yn ochr ô'r holl unigolion o fri sydd yn galw am ddiarfogi niwclear byd-eang, mae digon o gyfryngau y gallwn ni eu defnyddio.

Mae gan CND, Dileu 2000, grwpiau heddwch, unigolion a llywodraethau ledled y byd ran bwysig i'w chwarae yn y blynyddoedd sydd i ddod yn yr ymdrech i sicrhau byd di-niwclear. Rhaid i ni gynyddu;r pwysau ar y gwladwriaethau niwclear-arfog i ddiarfogi, a chynnal y pwysau o blaid dod ô'r CGPC i rym ochr yn ochr ô'r

Confensiwn Arfau Cemegol a Chonfensiwn Arfau Biolegol atgyfnerthedig. Rhaid i ni sicrhau na chollir y llygedyn hwn o gyfle, gan lithro yn ôl dros y dibyn niwclear, o bosib am byth.

***William Peden, Gweithiwr Seneddol, CND***

- *Nodyn y Golygydd: Nid yw'r Llywodraeth Brydeinig erioed wedi negydu ynghylch dileu neu leihau nifer arfau niwclear. Mae hi'n bryd i'r llywodraeth ddileu Trident a dechrau dadgomisiynu'r holl ergydion ac adweithyddion niwclear, tra'n ymuno yn y negydu drwy'r Cenhedloedd Unedig i gael y gwladwriaethau niwclear-arfog eraill i wneud 'run fath.*




# Ewro-fom?



Mae'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn cynnwys dwy wladwriaeth sydd yn arddel arfau niwclear ymhlith ei aelodau, sef Prydain a Ffrainc. Maent ill dwy yn aelodau o NATO, ac mewn egwyddor mae eu harfau niwclear ar gael i'w defnyddio yn ystod unrhyw weithredu gan Nato, fel y mae eiddo'r UD.

Sefydlwyd Undeb Gorllewin Ewrop (UGE) ym 1948 ond bu yng nghysgod NATO byth er sefydlu'r corff hwnnw ym 1949. Fe'i hail-lawnsiwyd ym 1987 i fod yn gorff milwrol o fewn yr UE gan aelodau sydd hefyd yn aelodau o NATO.

Sefydlwyd UGE i ddiogelu buddiannau aelodau'r UE drwy ddulliau milwrol, a gall weithredu y tu allan i Ewrop. Mae UGE wedi datgan mai ei bolisi yw datblygu "Brawatalydd Niwclear" sydd yn golygu yn ymarferol y rhennid arfau niwclear Ffrainc a Phrydain gyda holl aelodau'r Undeb Ewropeaidd. Bydd UGE yn gweithredu yn unol ô'r safbwynt a fabwysiedir gan NATO. Mae adnoddau NATO ar gael i UGE pan fydd hwnnw'n gweithredu ar sail polisÿau Tramor a Diogelwch cyffredin i'r UE.

Mae egin "Euro Corps" wedi cael ei sefydlu gan UGE ond mae hwnnw ar gael at wasanaeth NATO hefyd.

## Clwb niwclear milwrol newydd

Mae Cytundeb Maastricht yn gosod materion amddiffyn ar agenda'r UE ac mae'n rhagweld cydweithredu clos rhwng aelodau ar faterion milwrol ac amddiffyn. Y pen draw fydd bod âLlu Milwrol Ewropeaidd wedi ei arfogi ag arfau niwclear. Bydd y camau hyn yn tueddu i greu clwb milwrol caeŠdig ar wahôn a fydd yn peri problemau cyfathrebu gyda gwledydd nad ydynt yn aelodau, yn enwedig pobloedd gwledydd Dwyrain Ewrop sydd yn draddodiadol wedi ofni ymosodiadau arnynt gan Orllewin Ewrop.

Mae swyddogion yn y llywodraeth Brydeinig yn dweud y byddai brawatalydd niwclear Ewropeaidd yn torri Erthygl 1 o'r Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear sydd yn gwahardd gwledydd ag arfau niwclear rhag trosglwyddo'r rhain i wledydd eraill.

## Tanseilio niwtraliaeth

Mae problemau hefyd gydag aelodau'r UE sydd wedi bod yn niwtral yn rhynglwadol yn draddodiadol. Un o'r gwledydd hynny yw Iwerddon, a byddai'r parch rhyngwladol sydd iddi fel grym cadw-heddwch, oherwydd ei hanes gwrth-imperialaidd a'i niwtraliaeth, o dan fygythiad.

Ym mis Rhagfyr 1996, trafodir dod ô'r cydweithrediad milwrol clos hwn i rym o dan Maastricht yn y Gynhadledd Ryng-Lywodraethol yn Nulyn.

Rhaid i ni fod yn ymwybodol iawn o oblygiadau'r Cytundeb hwn a'r effeithiau tebygol ar gydweithrediad rhyngwladol y tu allan i'r UE, a beth y bydd yn ei olygu o safbwynt symud tuag at ddiarfogi niwclear a heddwch byd-eang. Ein gwaith ni yw rhoi gwybod i'n cynrychiolwyr etholedig ein bod am i Brydain ymwrthod yn gyhoeddus âdefnydd arfau niwclear fel rhan o unrhyw bolisi tramor a diogelwch cyffredin.

***Rod Stallard***

**HEDDWEITHREDU**

*Rhowch wybod i'ch ASE (a/neu AS) beth yw eich teimladau ynglyn ag Ewrop niwclear-arfog pan ddylem fod yn gweithio tuag at Ewrop ddi-niwclear. Am ddeunydd cefndir, sef "Nuclear Weapons and the European Union" gan Martin Butcher (Y Ganolfan Ddiogelwch a Diarfogi Ewropeaidd) ysgrifennwch at CND Prydeinig, 162 Holloway Road, Llundain N7 8DQ.*

# Hyder mewn dyfodol niwclear?

Mae Diwydiant Niwclear gwledydd Prydain wedi cael ei ad-drefnu:

Rhannwyd Nuclear Electric bellach yn Magnox Electric ccc (gweithgaredd sector gyhoeddus!) a British Energy (cwmni cyhoeddus!). Mae gan British Energy ddau is-gwmni: Nuclear Electric Cyf. a Scottish Nuclear Cyf. (sydd â thrwydded i weithredu Adweithyddion Niwclear Nwy-oeredig Uwch ac Adweithydd Dwr-tan- Bwysau Sizewell. Disgwylir yr â Magnox Electric yn eiddo i BNFL yn y man.

Mae adran fasnachol Awdurdod Ynni Atomig y Deyrnas Unedig wedi mynd yn gorff o'r enw Atomic Energy Authority Technology ccc (yn barod i gael ei breifateiddio). Bydd gweddill yr Awdurdod yn gyfrifol am ddadgomisiynu a gwastraff ymbelydrol, a bydd yn para mewn meddiant cyhoeddus.

Ad-drefnwyd y Gweithgorff Iechyd a Diogelwch. Mae gwaith polisi ar ymbelydredd sy'n ioneiddio yn gyfrifolfdeb y Gyfarwyddfa Iechyd, tra bod diogelwch niwclear yn gyfrifoldeb y Gyfarwyddfa Polisi Diogelwch.

Felly dyna chi'n gwybod nawr! A ydych chi'n credu mai diogelwch ac amddiffyn y cyhoedd rhag peryglon ymbelydredd a esgorodd ar y newidiadau hyn?

***Rod Stallard***

## Dyddiadur Heddwch a Chyfarwyddiadur Heddwch Byd-Eang Houseman's 1997

### £6.95 yn cynnwys cludiant

Mae Houseman's yn ddewiniaid bach! Maen nhw'n creu'r cyhoeddiad bendigedig yma bob blwyddyn ac mae'n cynnig math o "fap taith" o gyfeiriadau a gwybodaeth i'n tywys drwy gorsydd a mynyddoedd ymgyrchu.

Yn ôl Houseman's, y nod yw ymbweru pobl yn eu cymunedau ac yn rhyngwladol, a'u cynorthwyo yn eu gwaith dros heddwch.

Adolygir y Dyddiadur yn flynyddol ac mae'n rhestru bron 2000 o fudiadau heddwch, yr amgycledd a hawliau dynol cenedlaethol a rhyngwladol mewn mwy na 140 o wledydd.

Dyddiadur poced ydyw, yn dangos wythnos ar y tro, dyddiadau nodedig, a dyfyniad bob wythnos. Mae calendrau ynddo a chynllunydd dyfodol.

Mae ganddo erthyglau arbennig ar ymgyrchoedd rhyngwladol yn erbyn cwmnÿau traws-wladol.

Gwasanaeth di-elw yw Dyddiadur Houseman's i'r mudiadau byd-eang sydd yn gweithio dros heddwch, cyfiawnder cymdeithasol ac i arbed ein hecosystem.

Mae gan hyhi sydd yn golygu Heddwch un wrth ei phenelin bob amser – ac mae wedi bod ag un ers blynyddoedd!

Ar gael o'r Siop Heddwch, Mackintosh Place, Caerdydd neu drwy'r post oddi wrth Houseman's, 5 Caledonian Road, Llundain N1 9DX (0171) 837 4473.

# Ymbelydredd ym Môr Iwerddon – perygl i bobl Cymru

Gwaith ailbrosesu niwclear yn Cumbria yw Sellafield. Bob dydd, bydd yn gollwng 2000 galwyn o wastraff ymbelydrol yn cynnwys radioniwclidau synthetig i mewn i Fôr Iwerddon.

Mae Springfield, yn Swydd Gaerhirfryn, yn cynhyrchu rhodenni tanwydd niwclear, a gollyngir radionwclidau i'r môr oddi yno hefyd.

Cafwyd plwtoniwm a'i isotop marwol, americiwm 241, ym Mae Ceredigion mor bell i'r de ag aber afon Teifi. Mae'r radioniwclidau hyn yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd yn y môr ac ar dir a gellir hefyd eu hanadlu pan chwythir hwy yn y llwch o'r aber pan fydd y lanw allan.

Yn ddiweddar, mae gwaith THORP yn Sellafield wedi cynyddu'r hyn y cynllunia i'w ollwng i'r môr a bwriedir cynyddu hyn eto pan fydd yn gwbl weithredol ym 1997.

Cludir plwtoniwm o'r tanwydd niwclear a ailbroseswyd ar longau ar Fôr Iwerddon. Mae arfau niwclear ar longau tanfor Trident yn teithio ym Môr Iwerddon. Mae llongau tanfor hela-lladd sy'n rhedeg ar ynni niwclear yn teithio Môr Iwerddon. Mae'r rhain oll yn golygu y gallai damwain ofnadwy ddigwydd gyda chanlyniadau trychinebus o bosib i bobl Cymru, Iwerddon a llawer o Brydain.

Mae'r deunydd ymbelydrol a ollyngir o orsafoedd ynni niwclear yr yr Wylfa (Ynys Môn), Trawsfynydd (Meirionnydd) Hinkley (Gwlad yr Haf) Oldbury a Berkeley (Swydd Gaerloyw) oll yn ychwanegu at gyfanswm y deunydd ymbelydrol ar wely Môr Iwerddon a glannau Lloegr, Cymru ac Iwerddon.

## Agenda 21 – ymbweru'r boblogaeth leol

Mae Agenda 21 yn rhwymo awdurdodau lleol i ymgynghori â phobl leol ar sut y gellir sicrhau amgylchedd diogel, cynaladwy. Nid yw peryglon ynni niwclear ac arfau niwclear a'r cludiant, y cynhyrchu a'r ailbrosesu sy'n gysylltiedig â hwy yn gydnaws ag amgylchedd diogel. Dylem, gan hynny, annog ein hawdurdodau lleol i roi cyhoeddusrwydd i'r bygythiad hwn a gweithio i ddileu'r peryglon hyn o'n cymdeithas.

**HEDDWEITHREDU**

*Sefydlwyd CND Preseli a Theifi yn ddiweddar i ymgyrchu'n lleol ar y materion hyn a hedfan isel. Am wybodaeth bellach am weithredu lleol a chyfarfodydd cysyllter â Paul Hawkes (01239) 614856 neu CND Cymru.*

# Rhan hanfodol o beiriant rhyfel Prydain: Sefydliadau Arfau Atomig Aldermaston a Burghfield

## Trident

Mae'r holl gadwyn niwclear, o gloddio am wraniwm hyd at leoli'r taflegrau, eu gwasanaethu a'u datgymalu yn y pen draw yn peri niwed i iechyd pobl a'r amgylchedd. Fel y dengys tystiolaeth y 40 mlynedd diwethaf, nid yw'r fath arfau niwclear strategol yn atal rhyfel. Mae'r lluoedd arfog yn gallu rhagweld sefyllfaoedd lle byddent yn barod i ddefnyddio'r arfau hyn.

"Byddai NATO a Phrydain, mewn cyfyngder, yn barod i ddefnyddio Trident" (Michael Portillo, 1996).

Mae gan bob llong danfor Trident 16 ergyd niwclear. Mae gan bob un o'r rhain fwy na 5-gwaith gallu dinistriol y bom a ollyngwyd ar Hiroshima. Mae prosiect dinistr torfol Trident yn costio mwy na £33 biliwn.

## SAAau Aldermaston a Burghfield

Mae'r llefydd ofnadwy hyn yn hanfodol i beiriant rhyfel Prydain.

Ar hyn o bryd, SAA Aldermaston yw'r ganolfan ar gyfer ymchwil a datblygu arfau niwclear. Dyma hefyd lle cydosodir darnau ymholltol yr ergydion niwclear ar gyfer taflegrau Trident.

SAA Burghfield yw'r lle y cydosodir yr ergydion. Bydd yr ergydion hyn yn mynd yn anwadl yn rheolaidd, a rhaid eu danfon am wasanaeth i Burghfield a'u datgymalu yn y pen draw.

Y tu fewn i SAA Aldermaston – anafusion rhyfel diwedd yr 20fed ganrif

Mae ymholiadau wedi datgelu bod mwy na 100 o weithwyr wedi cael eu llygru neu eu hanafu yn Aldermaston erbyn 1993, a bod 7 wedi marw. Tybir y bu farw o leiaf 9 arall o ganlyniad i gael ei llygru ag ymbelydredd.

Erbyn 1993, bu 252 o danau ar y safle ac o leiaf 58 o ddigwyddiadau difrifol neu rai a allai fod wedi bod yn ddifrifol.

Cafodd adroddiad gan y Gweithgorff Iechyd a Diogelwch ym 1994 y cymerwyd camrau annigonol i atal adwaith cadwyn niwclear.

## Yr amgylchedd a iechyd

Mae lefel anarferol o uchel o lewcemia mewn plant yn yr ardal.

Mae pibell ddeng milltir o hyd yn rhedeg o Aldermaston i Pangbourne lle mae'n chwydu gwastraff hylif ymbelydrol a gwenwynig i mewn i afon Tafwys. Ar hyd y bibell ceir falfiau a chloriau arolygu y gwyddys iddynt fod yn gollwng.

Ym 1987, arllwysodd 22,0000 galwyn o wastraff ymbelydrol o'r bibell ar dir yn union y tu allan i ysgol gynradd.

Ym 1993, darganfu Greenpeace ddau lain o dir ar hyd cwrs y bibell wedi eu llygru'n drwm âphlwtoniwm. Symudodd y SAA haen uchaf y pridd yn y pen draw.

Golyga strwythur geolegol yr ardal yr âunrhyw wastraff ymbelydrol sy'n gollwng o'r bibell yn syth i mewn i'r lefel trwythiad. Ym 1994, hawliodd cynghorydd lleol bod ganddi dystiolaeth o ffynhonnell yn yr Awdurdod Hedfan Sifil y canfuwyd lefelau uchel iawn o radioniwclidau yn yr awyr yng nghyffiniau SAA Aldermaston.

## Ymchwiliad lleol

Tanlinellodd ymchwiliad lleol ym 1994 ofnau pobl leol. Daeth y bargyfreithiwr o fri, Helena Kennedy, a gadeiriodd yr Ymchwiliad i'r casgliad:

"Yn fy marn i, mae'n hen bryd cynnal ymchwiliad cyhoeddus llawn i agweddau iechyd, amgylcheddol a diogelwch SAA Alfermaston a Burghfield."

Mae'r llywodraeth yn gwrthod cynnal ymchwiliad cyhoeddus llawn.

## Confois niwclear

Daw Confois Defnyddiau Niwclear arbennig âphlwtoniwm a defnyddiau eraill i Aldermaston o Sellafield a Llanisien.

Cludir ergydion niwclear ar hyd ffyrdd cyhoeddus rhwng SAA Burghfield a Coulport yn yr Alban. Cludir ergydion ar y ffyrdd i arfordir de Lloegr hefyd, ac oddi yno ar longau i Coulpotrt.

Mae confois o fomiau niwclear WE177 yn teithio rhwng SSA Burghfield ac RAF Honnington yn East Anglia. Bu sawl damwain ffordd, yn cynnwys un lle trodd un o gerbydau'r confoi wyneb i waered.

## Ymgyrch Menywod Aldermaston a Burghfield

Mae gwersylloedd heddwch menywod yn Aldermaston (ail benwythnos pob mis) a Burghfield (4ydd penwythnos y mis – ond yn afreolaidd).

**Deg Rheswm Da dros Ddod i Wersyll Heddwch:**

- oherwydd bod modd newid pethau
- i leisio'ch barn
- i fod yn bresenoldeb gweladwy
- i ddysgu mwy am y pynciau llosg
- i gwrdd âmenywod eraill a ffurfio rhwydweithiau
- i addurno'r ffens
- i ymgyrchu yn y cylch
- i gymryd rhan mewn gweithredoedd di-drais neu gefnogi menywod eraill sy'n gwneud
- i fod gyda menywod eraill sy'n meddwl 'run fath âchi yn yfed te o gwmpas y tôn!
- oherwydd bod eich angen chi arnon ni.

I ddod i wesyll heddwch, does DIM rhaid i chi

- fod yn hen law gwersylloedd heddwch neu ymgyrchu dros heddwch
- fod ag offer gwersylla llawn (dewch âbeth sy gennych)
- fod ag awydd llosg am weithredu'n ddi-drais a chael eich restio (mae rhai yn teimlo felly ac eraill ddim)
- fod ârhywun i ddod gyda chi (rydym yn gyfeillgar dros ben!)
- aros am benwythnos cyfan neu ymrwymo i ddod yn rheolaidd (mae unrhyw gefnogaeth o werth)

Croeso i bob menyw.
Croeso i ddynion ymweld yn ystod golau ddydd.

- Sian Evans

**HEDDWEITHREDU**
*Am fwy o wybodaeth, cysylltwch âSian (01222) 396563.*



## Bryn Elltyd



### Gwyliau yng Ngogledd Cymru

*Bryn Elltyd – tŷ teuluol traddodiadol Cymreig yn nythu yng nghanol y Moelwyn rhwng Llan Ffestiniog a Phorthmadog*

Dringwch greigiau'r Moelwyn neu'r Rhinog. O fewn cyrraedd hawdd i Eryri, y Carneddau, y Glyder Fawr a'r Glyder Fach. Ewch mewn canŵ ar afonydd lleol, yr aber, llynnoedd neu'r mr. Mae pobl leol ar gael i'ch tywys neu'ch hyfforddi. Mae amrywiaeth hynod o goedwigoedd, traethau, cestyll, trefi marchnad a chwareli llechi yn y cylch.

Mae gan y tŷ olygfeydd gwych a thair llofft, stafell molchi, lolfa, stafell fwyta a chegin gyda phob cyfleuster modern.

Mae Bryn Elltyd ar gael drwy gydol y flwyddyn fel llety hunan-ddarmerthol neu ar sail Gwely a Brecwast a phryd min-nos.

Am fanylion pellach, cysyllter â:

Bob ac Ann Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW. Tel (01766) 831356.






## Peace Shop

**56 Mackintosh Place, Roath, Cardiff CF2 4RQ. Tel: 01222 489260**

**Nwyddau o Traidcraft, Amnesty Rhyngwladol, Gwrth-Apartheid, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear, CND, Earthcare, Unicef. Mae gennym stoc helaeth o lyfrau a chylchgronau ynghyd â gemwaith o waith llaw a chrefftau ac, wrth gwrs, crysau-T a sticeri.**


## CYSWLLT CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH,
56 MACKINTOSH PLACE, ROATH,

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin SA20 OLR (01550) 750260

CADEIRYDD
**David Morris MEP (01792) 643542**

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Rod Stallard** (01550) 750260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

AELODAETH
**Aelodaeth CND Cymru d/o Y Siop Heddwch**

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TRYSORYDD
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close,
Y Porth, Rhondda CF39 9DF

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda.**

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________

______________________________

______________________________ Côd Post ________

Ffôn ______________________________ Amgaeaf siec/GP am ____

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Y Siop Heddwch. 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.

# Dyddiadau Dyddiadur

**14-15 Rhagfyr** Cynhadledd Ryng-Lywodraethol Ewrop, Dulyn – pam na adewch chi i John Major wybod eich barn am Lu Milwrol Ewropeaidd – pam na ofynnwch iddo ystyried Ewrop Ddi-niwclear? (gweler stori)

**Rhagfyr 14** 11.00am. Cyngor CND Cymru, Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Llandrindod. Croeso i unrhyw aelod neu gynrychiolydd. *Cysyllter â Jill Stallard (01550) 750 260 am fwy o wybodaeth*

**Ionawr 1** SAA Caerdydd, Llanisien: Gwylnos bob nos Wener i Fenywod. *Cysyllter â Marjorie (01222) 753961*

**Chwefror 15** Cyngor CND Cymru (gweler uchod)

**Gwersylloedd Heddwch Parhaol**

Gwersyll Heddwch Menywod Menwith Hill, Swydd Efrog. *Cysyllter â (0585) 329313*

Gwersyll Heddwch Faslane, Swydd Dumbarton. *Cysyllter â (01436) 820901*

**Gwersylloedd Heddwch Menywod Rheolaidd**

Aldermaston: Ail benwythnos pob mis. *Cysyllter â (0117) 909 9448*

Burghfield: Penwythnos olaf pob mis. *Cysyllter â (01703) 554434*

Sellafield: Penwythnos olaf bob yn ail fis (gwersyll nesaf ym mis Ionawr). *Cysyllter â (01706) 12663*

**"Nid heddwch am ba bris bynnag, ond cariad, costied a gosto" (Dick Sheppard, sefydlydd yr Undeb Ardystio Heddwch, 1937)**

## Cyfraniadau i Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Heddwch yn ymddangos ym mis Chwefror 1997
- Ffoniwch Jill am y dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf
- Danfonwch eich cyfraniadau at Jill Stallard, os gwelwch yn dda (gweler Cysylltiadau am y cyfeiriad): croeso i gyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur neu email. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01222 488748 email 100533.241@compuserve.com) am fanylion.
- Croesewir pob help gyda'r gwaith golygyddol.